Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# St David's College

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â St David's College

Mae St David's College yn ysgol ddydd a phreswyl annibynnol sy'n addysgu bechgyn a merched rhwng 9 a 19 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar dir helaeth, ychydig i'r de o Landudno yng ngogledd Cymru.

Agorodd yr ysgol ym 1965, fel elusen addysgol a sefydlwyd gan weithred ymddiriedolaeth, er mwyn cynnig addysg uwchradd o fewn fframwaith Cristnogol. Cenhadaeth yr ysgol yw 'datblygu'r person cyfan trwy addysg eang wedi'i seilio ar egwyddorion Cristnogol, dewis eang o ddiddordebau a gweithgarwch, a rhaglen bersonol gyflawnadwy i bob disgybl'.

Ar hyn o bryd, mae 250 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 95 ohonynt yn preswylio yno. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys 27 o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6, ynghyd â 154 o ddisgyblion 11 i 16 oed yn yr ysgol uwch, a 69 arall yn y chweched dosbarth. Yn gyffredinol, mae tua dwywaith cymaint o fechgyn na merched yn yr ysgol, er bod yr union gydbwysedd yn amrywio mewn grwpiau blwyddyn ar draws yr ysgol.

Daw tua hanner y disgyblion, gan gynnwys rhai sy'n breswylwyr, o ardaloedd lleol Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn. Daw eraill o bob cwr o'r Deyrnas Unedig ac o Iwerddon. Daw tua 12% ohonynt o dramor, gan gynnwys o gymunedau alltud ledled y byd, plant i aelodau'r lluoedd arfog ynghyd â disgyblion o wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd. Daw tua 7% o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf gartref. Mae ychydig bach ohonynt yn siarad Cymraeg neu iaith arall.

Mae St David's College yn addysgu disgyblion ag amrywiaeth eang o alluoedd. Mae tua 50% o ddisgyblion wedi cael diagnosis o ddyslecsia neu anhawster dysgu penodol arall. Mae gan ychydig dros 16% o ddisgyblion ddatganiad o angen addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth arbenigol ychwanegol i ddisgyblion yn ei hunedau llythrennedd a rhifedd. Caiff lefel y cymorth ei theilwra i fodloni anghenion dysgu unigol disgyblion.

Cynhaliwyd yr arolygiad craidd diwethaf yn Hydref 2012. Ers yr arolygiad diwethaf, bu newidiadau arwyddocaol i'r tîm arwain. Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd ym Mehefin 2017. Mae'r tîm arwain, sydd wedi'i ailstrwythuro, yn cynnwys y bwrsar, y cofrestrydd a'r cyfarwyddwr datblygu strategol, dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol, ynghyd â chaplan yr ysgol a'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig (AAA).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn llwyddo i feithrin gweledigaeth gyfunol, sef bod St David’s yn gymuned deuluol gynhwysol, anogol, sy’n hyrwyddo profiadau dysgu buddiol a diddorol i bob disgybl. Mae disgyblion yn ffynnu yn yr amgylchedd cefnogol a digynnwrf, gan gynyddu’u hunan-barch a chyflawni lefelau uchel o les yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu’u medrau cymdeithasol a chyfathrebu ac yn cyflawni safonau uchel o ran eu hanghenion a’u galluoedd dysgu. Yn benodol, mae darpariaeth cymorth dysgu’r ysgol, sydd o ansawdd uchel, yn helpu disgyblion i ddatblygu strategaethau dysgu effeithiol i oresgyn eu hanawsterau, gwella’u hunanhyder a gwneud cynnydd cadarn yn unol â’u galluoedd. Mae’r deilliannau hyn yn paratoi disgyblion o bob gallu yn dda ar gyfer profiadau addysgol pellach perthnasol a chyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Mae addysgu yn St David’s wedi’i nodweddu gan y berthynas waith anogol a chefnogol rhwng staff a disgyblion. Mae’r perthnasoedd hyn yn meithrin hyder ac ymddiriedaeth disgyblion, ac yn cyfrannu’n sylweddol at wybodaeth, dealltwriaeth a medrau datblygol disgyblion. Mae’r cwricwlwm yn adeiladu’n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac mae’n cefnogi’u cynnydd yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn cynnig ystod ragorol o gyfleoedd creadigol, diwylliannol, hamdden a chwaraeon. Mae’r rhaglen addysg awyr agored helaeth sydd wrth wraidd bywyd a chenhadaeth yr ysgol yn gwneud cyfraniad sylfaenol at wydnwch, datblygiad personol a lles y disgyblion.

Mae’r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn darparu lefelau digonol o her ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl

A2 Gwella cysondeb adborth athrawon i ddisgyblion, ac ansawdd eu hymatebion

A3 Cryfhau trefniadau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu'n cynnig lefelau digonol o her i'r holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl

A2 Gwella cysondeb adborth athrawon i ddisgyblion ac ansawdd eu hymatebion

A3 Cryfhau'r trefniadau sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau mae'r ysgol yn bwriadu'u cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, cynghorir dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i holl rieni/gofalwyr yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â'r rhaglen ragorol o addysg a gweithgareddau awyr agored sy'n gwneud cyfraniad hollbwysig at fedrau, datblygiad personol a lles disgyblion, ac yn gysylltiedig â darpariaeth yr ysgol ar gyfer cymorth dysgu, yn enwedig y prosesau cynhwysfawr a thrylwyr ar gyfer nodi a monitro anghenion dysgu unigol disgyblion a darparu cymorth arbenigol ysgol gyfan i fodloni'r anghenion hyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae St David’s College yn addysgu disgyblion sydd ag amrywiaeth eang o alluoedd. Mae’r mwyafrif yn derbyn addysgu arbenigol, yn bennaf ar gyfer anawsterau dysgu penodol. Mae galluoedd disgyblion a natur eu AAA yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Serch hyn, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni safonau uchel yn gysylltiedig â’u hanghenion a’u galluoedd dysgu. Mae’r deilliannau hyn yn eu paratoi’n dda ar gyfer profiadau addysgol pellach perthnasol a chyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gadarn. Maent yn cymhwyso’r wybodaeth hon yn llwyddiannus i ddatrys problemau neu ddeall cysyniadau newydd, er enghraifft wrth ystyried y ffactorau sy’n effeithio ar yr hinsawdd mewn lleoliad penodol.

Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu’u medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu’u medrau siarad a gwrando yn dda. Maent yn huawdl ac yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa briodol. Mae bron pob un o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando’n ofalus ar esboniadau athrawon a syniadau eu cymheiriaid. Mae ganddynt yr hyder i drafod materion penodol a mynegi’u barn am bynciau penodol. Mae ychydig ddisgyblion yn gofyn cwestiynau ystyriol i gadarnhau ac ymestyn eu dealltwriaeth o gysyniadau newydd. Mae’r mwyafrif yn siarad yn glir ac yn hyderus, gan ddefnyddio termau technegol priodol a dangos mynegiant, tôn a phwyslais da. Yn y celfyddydau perfformio, er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn creu darnau drama comedïaidd difyr a llawn mynegiant, gan archwilio themâu fel hierarchaeth a pherthnasoedd personol. Fodd bynnag, mae diffyg hyder ymhlith ychydig ddisgyblion i ymateb yn fanwl i gwestiynau athrawon er mwyn cynnig eu barn a’u syniadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol gyda’u medrau darllen. Mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn darllen ar goedd gyda rhugldeb a hyder. Dangosant frwdfrydedd tuag at ddarllen ac maent yn awyddus i rannu’u meddyliau am y nofelau maent wedi’u darllen. Mae gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol fedrau darllen datblygedig. Maent yn darllen yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol o amrywiaeth o destunau, a’i threfnu. Mewn bioleg, er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 11 yn paratoi esboniadau manwl o broses homeostasis. Mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 9 yn dangos dealltwriaeth sicr o’r defnydd o amrywiaeth o dechnegau barddonol i greu effaith neu fynegi emosiwn. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn disgrifio’n gywir sut mae’r awdur yn portreadu personoliaeth ac agweddau cymeriadau penodol wrth astudio ‘An Inspector Calls’.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu’n gywir, yn unol â’u gallu a lefel eu hanawsterau llythrennedd, gan ddefnyddio iaith berthnasol, pwnc-benodol, yn briodol. Maent yn cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig ystyrlon gan ddefnyddio strwythur ac atalnodi addas. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 9 yn llunio adroddiadau addysgiadol yn seiliedig ar eu hymchwil

ar fywyd nomadiaid yn Kazakhstan. Mewn Saesneg, mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 9 yn creu barddoniaeth ddiddorol gan archwilio themâu fel colled bersonol, gydag ychydig ddisgyblion yn llunio darnau arbennig o deimladwy sy'n dal naws ac emosiynau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig ddisgyblion yn datblygu'u hymatebion ysgrifenedig yn llawn. Mae diffyn dyfnder a manylion yn eu hadroddiadau. Mae lleiafrif o ddisgyblion o bob gallu yn aml yn gwneud gwallau sillafu ac atalnodi esgeulus.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae disgyblion yn ymchwilio i effaith amrywiaeth o weithgareddau, fel eistedd, cerdded, neidio a loncian, ar gyfradd curiad y galon. Maent yn cofnodi data'u canfyddiadau yn briodol i ddangos sut mae cyfradd curiad y galon yn newid yn ystod y gweithgareddau hyn. Mewn daearyddiaeth, mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 9 yn dod i gasgliadau ystyrlon wrth ddadansoddi data ar amodau hinsoddol mewn lleoliadau rhyngwladol penodol. Mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion Blwyddyn 11 yn creu graffiau cywir i ddangos effeithiau newidiadau mewn tymheredd a phwysedd ar gynhyrchu amonia.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cymwysiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), gan gynnwys technoleg gynorthwyol fel meddalwedd adnabod llais, yn fuddiol i'w helpu i ddatblygu'u medrau cyfathrebu ac i gefnogi'u dysgu. Yn eu gwaith prosiect astudiaethau busnes, mae disgyblion yn defnyddio cymwysiadau TGCh ac yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol i ddadansoddi a chyflwyno'u casgliadau am y costau, y prisiau a'r elw sy'n gysylltiedig â datblygu a marchnata diod ffrwythau newydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau creadigol yn llwyddiannus yn eu gwaith celf deniadol, perfformiadau dramatig difyr, nwyddau dylunio arloesol a gwaith cerddorol dychmygus. Yn eu profiadau ar draws y cwricwlwm a rhaglen gweithgareddau'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwaith tîm ac arwain gwerthfawr. Mae'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin, gan gyflawni cyfraddau llwyddiant uchel ar bob lefel.

Yng nghyfnod allweddol 4, ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, mae llawer o ddisgyblion wedi cyflawni trothwy lefel 2 (cyfwerth â 5 TGAU graddau A* i C). Dros yr un cyfnod, mae mwyafrif y disgyblion wedi cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg. Mae'r deilliannau hyn yn cymharu'n dda â chyfartaleddau cenedlaethol. Am y tair blynedd diwethaf, nid yw'r un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

Dros y tair blynedd diwethaf ar lefel ôl-16, mae mwyafrif y cynigion ar gyfer cymwysterau lefel 3 wedi ennill graddau A*-C neu gyfwerth. Ar ddiwedd Blwyddyn 13, mae bron pob un o'r disgyblion yn symud ymlaen i addysg bellach neu uwch, neu i waith perthnasol.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned deuluol arbennig o gefnogol a chynhwysol. Mae disgyblion yn ffynnu yn yr awyrgylch digynnwrf, gofalgar ac anogol sy'n treiddio'r ysgol. Maent yn elwa'n ddirfawr o'r amgylchedd anogol, gan ddatblygu'u lles a'u hunanhyder yn llwyddiannus yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn mewn ffordd aeddfed a pharchus mewn gwersi ac o gwmpas y safle. Maent yn gwrtais tuag at staff a'i gilydd, ac yn hynod groesawgar tuag at ymwelwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryder ac maent yn hyderus bod unrhyw achosion o fwlio a allai godi yn cael eu datrys yn effeithiol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta'n iach a buddion ymarfer corff rheolaidd wrth hyrwyddo'u ffitrwydd a'u lles. Mae cyfraddau cyfranogiad yn y rhaglen helaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden allgyrsiol yn uchel tu hwnt. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y rhaglen addysg awyr agored heriol, ddifyr a buddiol, sy'n cynnwys diwrnod llawn o weithgarwch i'r holl ddisgyblion, hyd at Flwyddyn 10, bob pythefnos. Mae pob un ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cyfoethogi ychwanegol, gan gynnwys garddio, celf a gyrru cerbyd 4x4 oddi ar y ffordd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn frwdfrydig ac yn llawn symbyliad mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n adeiladol, yn annibynnol ac wrth gydweithio mewn parau neu grwpiau bychain gyda'u cymheiriaid. Mewn addysg gorfforol, er enghraifft, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gweithio'n llwyddiannus mewn timau bach i ddyfeisio ac adeiladu tyrrau bach gan ddefnyddio ffyn coctel a phwti adlynol. Fodd bynnag, nid yw ychydig bach o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae ychydig bach ohonynt yn ddysgwyr goddefol ac nid ydynt yn ymroi'n ddiwyd i'w tasgau.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn barod i ymgymryd ag ystod o rolau arwain. Maent yn cefnogi disgyblion iau yn fuddiol, er enghraifft wrth eu helpu gyda'u darllen, yn ogystal â threfnu gweithgareddau cymdeithasol penodol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau a chystadlaethau tŷ.

Mae'r cyngor ysgol yn grŵp gweithgar sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn wedi trafod newidiadau i wisg bresennol yr ysgol ac wedi dylanwadu ar brynu loceri i ddisgyblion gadw'u pethau yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r pwyllgor bwyd yn cyfarfod â'r prif gogydd i drafod a gwella ansawdd y bwydlenni i'r disgyblion preswyl.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion goddefgar, cyfrifol a gofalgar. Maent yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau elusennol a dyngarol, gan gynnwys datblygu cysylltiadau buddiol gyda banc bwyd lleol a rhoi anrhegion Nadolig i blant.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r cwricwlwm cynhwysol hwn yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion o bob gallu yn dda.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac mae'n cefnogi'u cynnydd a'u lles yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig llwybrau academaidd a galwedigaethol addas a hyblyg i ddisgyblion. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i bob disgybl ennill ystod werthfawr o gymwysterau perthnasol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod ragorol o gyfleoedd diwylliannol, hamdden a chwaraeon cyfoethogol er mwyn gwella ac ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn cynyrchiadau drama ac ensemblau cerddorol yn rheolaidd. Mae'r rhaglen gweithgareddau awyr agored helaeth wrth wraidd cenhadaeth yr ysgol i helpu disgyblion i fagu hyder a hunan-barch, a darganfod a datblygu'u doniau a'u talentau. Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfleoedd i bob disgybl ymhél ag ystod eang o weithgareddau heriol a bywiocaol sy'n eu helpu i ddatblygu'u gwydnwch a'u medrau arwain a gweithio mewn tîm. Hefyd, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn teithiau a gweithgareddau rhyngwladol ysgogol, fel mynd ar slediau wedi'u llusgo gan hysgwn yn Sweden a syrffio a phlymio sgwba ym Moroco.

Mae ystod fuddiol o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau cymdeithasol a chyfathrebu, yn ogystal â'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Ym Mlwyddyn 5 i Flwyddyn 8, mae dulliau effeithiol seiliedig ar brosiect yn helpu i atgyfnerthu ac ymestyn y medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn defnyddio gwaith pâr a grŵp yn dda i annog a chefnogi datblygiad medrau llefaredd a meddwl disgyblion. Mae disgyblion yn elwa o ddarpariaeth TGCh berthnasol i ymestyn eu dysgu. Mae rhaglen helaeth o ymyriadau targedig gwerthfawr yn helpu i gefnogi cynnydd y disgyblion hynny â medrau gwannach. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw strategaethau i hyrwyddo datblygiad cynyddol medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn cael eu cydlynu'n systematig.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth fuddiol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys dathlu diwylliant Cymru mewn gwasanaethau, cyfleoedd i gymryd rhan yn wythnos yr eisteddfod a'r defnydd o'r 'Tocyn Iaith' fel rhan o system wobrwyo'r ysgol.

Caiff addysgu yn St David's ei nodweddu gan y berthynas waith gefnogol ac anogol rhwng staff a disgyblion. Mae'r perthnasoedd hyn yn helpu i feithrin hyder ac ymddiriedaeth disgyblion ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu dysgu a'u datblygiad personol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn arbennig o dda ac mae ganddynt ymwybyddiaeth sicr o anghenion dysgu penodol disgyblion unigol. Mae hyn yn helpu'r athrawon hyn i gynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion y disgyblion hyn. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu diddorol a chadarnhaol. Maent yn cynllunio ystod strwythuredig a diddorol o weithgareddau pwrpasol, wedi'u cefnogi gan adnoddau defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau. Yn benodol, mae'r athrawon hyn yn defnyddio cymwysiadau TGCh penodol, fel technoleg gynorthwyol a strategaethau cymorth perthnasol i helpu'r holl ddisgyblion i ddatblygu'u hyder a'u hunan-barch, ac i gyflawni llwyddiant.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i atgyfnerthu dysgu blaenorol a pharatoi disgyblion ar gyfer pynciau a chysyniadau newydd. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn targedu cwestiynau'n fedrus i annog disgyblion o alluoedd gwahanol i ddatblygu'u meddwl. Mae mwyafrif yr athrawon yn procio disgyblion ymhellach i ymestyn eu hymatebion ac atgyfnerthu'u dealltwriaeth.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn darparu esboniadau manwl ac yn modelu dulliau a thechnegau effeithiol yn fuddiol, er enghraifft wrth bortreadu drama gomedïaidd neu arddangos medrau a strategaethau penodol mewn addysg gorfforol. Yn benodol, mae pwyslais cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth a defnydd disgyblion o derminoleg berthnasol.

Mewn ychydig achosion, mae diffyg paratoi effeithiol yn atal disgyblion rhag cyflawni deilliannau bwriadedig. Er enghraifft, ni chaiff gweithgareddau dysgu eu cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol, gan gynnwys darparu her addas i ddisgyblion mwy abl.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn dda. Defnyddiant ganmoliaeth yn effeithiol i annog disgyblion a rhoddant adborth llafar defnyddiol a chymorth ychwanegol, lle y bo'n briodol, i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig cefnogol ac adeiladol i ddisgyblion. Mae pwyslais diweddar a datblygol ar roi cyngor clir i helpu disgyblion wella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw strategaethau asesu'n cael eu cymhwyso'n gyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn ymwybodol o'r cynnydd a wnânt o ran eu targedau unigol ac nid oes dull cyson o sicrhau bod disgyblion yn mireinio a gwella ansawdd eu gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae St David's College yn rhoi gofal, cymorth ac arweiniad o safon eithriadol i ddisgyblion. Mae'n gymuned deuluol gynhwysol, anogol, lle y mae staff yn hyrwyddo diwylliant o ymddiriedaeth a pharch, y mae disgyblion yn ffynnu ynddo. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu lles. Mae'r modd brwdfrydig a hyderus y mae disgyblion yn ymateb i bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol yn adlewyrchu'r dull hwn yn gryf.

Mae prosesau ar gyfer asesu anghenion dysgu'r disgyblion ac olrhain eu cynnydd yn gynhwysfawr ac yn drylwyr. Mae staff yn narpariaeth arbenigol yr ysgol, sef Canolfan Cadogan, yn defnyddio gwybodaeth asesu yn arbennig o dda i nodi anghenion penodol pob disgybl unigol ac i lywio ymyriadau pwrpasol priodol tu hwnt. Mae'r aelodau staff hyn yn cynnig cymorth arbenigol i helpu disgyblion ddatblygu strategaethau dysgu effeithiol i oresgyn eu hanawsterau a gwneud cynnydd cadarn. Mae'r ganolfan yn rhoi arweiniad ac adnoddau defnyddiol i athrawon prif ffrwd i ymestyn eu medrau a'u harbenigedd. O ganlyniad, mae gan athrawon ar draws yr ysgol ddealltwriaeth ddatblygedig o'r ffordd orau o gynorthwyo'r disgyblion hynny sy'n cael anawsterau â llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn nodwedd arbennig o gryf o waith yr ysgol.

Mae tîm ehangach yr ysgol o therapyddion iaith a lleferydd, therapydd galwedigaethol, nyrsys a chwnselwyr yn ymestyn darpariaeth yr ysgol yn sylweddol. Mae eu gwaith yn cynorthwyo'r ysgol i roi dulliau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau buddiol ag ystod o asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth penodol y mae arnynt ei angen, mewn modd amserol. Dros gyfnod, wrth i ddisgyblion ddatblygu strategaethau i gefnogi'u dysgu a gwella'u hyder a'u hunan-barch, maent yn dysgu dathlu'u gwahaniaethau unigol.

Ar draws yr ysgol, mae pwyslais integredig, cryf ar hyrwyddo datblygiad ysbrydol, deallusol a chorfforol disgyblion. Yn benodol, mae agweddau fel y rhaglen addysg awyr agored a phrosiectau ‘tosturi’ penodol yn helpu disgyblion i werthfawrogi’u hamgylchiadau eu hunain, datblygu gwydnwch a hunanhyder a darganfod eu cryfderau penodol.

Mae’r rhaglen helaeth o weithgareddau allgyrsiol o ansawdd uchel yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu’u ffitrwydd a gwella’u lles. Mae llawer o’r gweithgareddau hyn yn cynnig profiadau defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau annibyniaeth ac arweinyddiaeth i’w cynorthwyo yn ystod eu hoedolaeth. Mae’r ysgol yn hynod lwyddiannus wrth annog disgyblion i fynegi’u doniau creadigol a datblygu’u hymwybyddiaeth ddiwylliannol trwy’r cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir ar draws ystod eang o grwpiau cerddorol, cynyrchiadau theatraidd a chlybiau celf.

Mae ethos yr ysgol yn annog pob aelod o’r gymuned i ddangos dealltwriaeth, parch a goddefgarwch tuag at eraill. Mae’r ysgol wedi sefydlu partneriaeth fuddiol gyda banc bwyd lleol, y mae disgyblion yn rhoddi bwyd iddo yn rheolaidd. Mae’r prosiect arloesol hwn yn helpu disgyblion i wneud cyfraniad pwysig at y gymuned leol a chymryd cyfrifoldeb am wella bywyd pobl eraill. Ar hyn o bryd, mae disgyblion yn casglu bagiau o anrhegion Nadolig i blant y mae eu rhieni yn dibynnu ar y banc bwyd. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar ddatblygiadau strategol a chyfrannu at amrywiaeth o benderfyniadau ar draws yr ysgol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr a rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu’u dealltwriaeth o’r byd ehangach a myfyrio ar faterion pwysig sy’n effeithio ar eu bywyd a bywyd pobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn archwilio diwylliannau eraill wrth berfformio cerddoriaeth Gamelan draddodiadol Indonesia. Mae gwaith agos gydag ysgolion yn Wganda yn helpu disgyblion i ddysgu am yr heriau sy’n wynebu plant sy’n byw mewn rhannau pellennig o Affrica. Mae’r gweithgareddau hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau parchus a gwerthoedd a chredoau cadarn.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn llwyddo i feithrin gweledigaeth gyfunol o St David’s College fel cymuned deuluol gynhwysol, anogol, sy’n hyrwyddo amrywiaeth eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel i bob disgybl. Mae’r dull hwn yn cyfrannu’n sylweddol at les disgyblion a’r safonau uchel y mae disgyblion yn eu cyflawni yn gysylltiedig â’u hanghenion a’u galluoedd dysgu unigol.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth feddylgar a grymusol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi ailstrwythuro’r uwch dîm arwain i ddirprwyo a dosbarthu rolau arweinyddiaeth yn briodol a sicrhau bod cyfrifoldebau arwain penodol yn ategu blaenoriaethau allweddol yr ysgol. Yn ystod y cyfnod hwn o newid, mae’r tîm arwain a’r corff staff cydweithredol a cholegol wedi cynnal safonau cyflawniad uchel ac wedi cynnig cymorth effeithiol ar gyfer lles disgyblion. Mae hyn yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Mae gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Yn benodol, mae arweinwyr yn cydnabod eu hatebolrwydd am ansawdd dysgu ac addysgu, ac am gynnydd a chyflawniad pob disgybl. Mae bron pob un o'r arweinwyr wedi sefydlu perthynas waith fuddiol a chefnogol gyda chydweithwyr ar eu tîm.

Mae'r ysgol yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith, adolygiadau adrannol ac arolygon disgyblion a rhieni. Hefyd, mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad a deilliannau disgyblion, ac yn ystyried canfyddiadau craffu allanol i helpu i amlygu blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cryfhau ei defnydd o ddata ar gynnydd disgyblion ac wedi datblygu pasbortau unigol buddiol er mwyn helpu staff i gynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion penodol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn amlygu meysydd manwl i'w gwella yn ddigon da, yn enwedig yn gysylltiedig ag ansawdd dysgu ac addysgu.

Mae rhaglen ddefnyddiol o weithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol yr ysgol, er enghraifft i wella'r defnydd o dechnoleg i gefnogi dysgu a sicrhau diogelwch a lles disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff canfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd ac o reoli perfformiad eu defnyddio'n ddigon da i amlygu anghenion dysgu proffesiynol perthnasol.

Mae gan lywodraethwyr ymrwymiad clir i gynnal ethos cadarn yr ysgol a chefnogi'i datblygiad yn y dyfodol. Mae strwythur sefydledig o bwyllgorau sy'n adlewyrchu dibenion craidd yr ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn meddu ar amrywiaeth eang o arbenigedd perthnasol sy'n eu helpu i gynnig cyngor perthnasol a gwerthfawr. Mae llywodraethwyr yn cynnig her addas i'r tîm arwain ar agweddau penodol ar waith yr ysgol. Yn gyffredinol, mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ac mae'n mynegi gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol.

Mae'r rheolwr cyllid, y pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn dda. Trwy gynllunio ariannol doeth a phenderfyniadau gwario ystyriol, mae'r ysgol mewn sefyllfa gadarn i gefnogi'i blaenoriaethau strategol.

Mae'r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â’r perchnogion, arweinwyr yr ysgol ac aelodau unigol o’r staff addysgu a chymorth i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2020